# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2010

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Eric Roberts (Is-Gadeirydd yn y Gadair)<br>Y Cynghorwyr Eurfryn G. Davies, Lewis Davies, Jim Evans, Kenneth P. Hughes, T. H. Jones, R. L. Owen, Hefin Thomas (Safle 1), John Penri Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Rheoli Cynllunio (DFJ)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr John Chorlton, J. Arwel Roberts. |

**1 22C346 - LÔN GOCH, LLANDDONA**

**Codi tyrbin gwynt 15 metr o uchder yn Lôn Goch, Llanddona.**

Yn ei gyfarfod gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2010, roedd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion wedi penderfynu, ar gais yr Aelod Lleol, y dylid ymweld â'r safle i roi cyfle i'r Pwyllgor asesu effaith weledol y cynnig ar yr ardal o gwmpas.

Dangosodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio gynllun i'r aelodau oedd yn dangos maint a safle'r tyrbin gwynt arfaethedig. Awgrymodd yr Aelod Lleol y dylid sgrinio'r safle o ystyried ei leoliad o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

***ADOLYGIAD O BENDERFYNIADAU O ANSAWDD***

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y tri safle a restrir isod yn esiamplau o wahanol gategoriau o ddatblygu yn cynnwys ceisiadau yr oedd swyddogion wedi'u penderfynu o dan bwerau dirprwyedig. Gofynnwyd i'r aelodau gwblhau holiadur yn mynegi eu safbwyntiau ar y datblygiadau. Dylid cwblhau'r holiaduron a'u cyflwyno i'r swyddog yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio. Dywedodd y swyddog y bydd ymweliadau tebyg yn cael eu trefnu ar gyfer cyfarfodydd ymweliadau safleoedd fis Rhagfyr a mis Ionawr i'w cynnal ar 16 Rhagfyr 2010 a 19 Ionawr 2011. Bydd yr holl holiaduron fydd wedi'u cwblhau yn cael eu dadansoddi gyda'r canlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Aelodau yn y man.

***Penrallt, Penrhyd, Amlwch;***
***Ty'n Llan, y Fali;***
***Morlais, Lôn Isallt, Trearddur.***

**Y CYNGHORYDD ERIC ROBERTS**
**CADEIRYDD**